Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pecyn gwybodaeth i ymgeiswyr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Penodi Aelod Annibynnol - Undebau Llafur

Dyddiad cau: 17 Rhagfyr 2020 am 4:00pm

The Commissioner for Public Appointments

Cynnwys

Tudalen

Gwneud Cais **3**

Atodiad A: Rôl yr Aelod **6**

Atodiad B: Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro **10**

Atodiad C: Y broses ddethol **11**

Gwneud cais

Diolch ichi am fynegi diddordeb ym mhenodiad Aelod Annibynnol – Undebau Llafur o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd yn ofynnol i'r Aelod Annibynnol newydd gymryd rhan fel aelod llawn o'r Bwrdd sy'n gosod y strategaeth ar gyfer y sefydliad. Yn ogystal â hyn, bydd disgwyl i chi herio'n adeiladol, cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau gan y Bwrdd a chraffu ar berfformiad y Tîm Gweithredol o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt. Mae'r Atodiadau sydd ynghlwm yn rhoi manylion ynghylch rôl yr Aelod Annibynnol – Undebau Llafur, manyleb y person, rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a'r broses ddethol.

I wneud cais, ewch i wefan penodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru yma: https://cymru-wales.tal.net/vx/lang-cy/mobile-0/appcentre-3/brand-2/xf-6ae1d2d8e1fd/candidate/jobboard/vacancy/7/adv/

I wneud cais am y rôl hon, cliciwch ar swydd wag Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac yna cliciwch ar y botwm 'Gwneud cais' ar waelod y dudalen ar yr ochr chwith. Y tro gyntaf ichi wneud cais am swydd, bydd angen ichi lenwi ffurflen gofrestru ar gyfer system ceisiadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Dim ond unwaith y mae angen ichi gofrestru, a thrwy wneud hynny byddwch yn gallu dilyn hynt eich cais, ac unrhyw geisiadau eraill rydych yn eu hanfon, trwy eich cyfrif.

Ar ôl cofrestru, bydd modd ichi weld y ffurflen gais. I wneud cais, bydd angen ichi lanlwytho datganiad personol a CV i adran 'Rhesymau dros wneud cais' y ffurflen gais ar-lein.

Datganiad Personol
Y datganiad personol yw eich cyfle i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf ym manyleb y person. Cewch chi benderfynu sut i gyflwyno'r wybodaeth. Fodd bynnag, dylech anelu at ddarparu enghreifftiau manwl sy'n dangos sut y mae eich gwybodaeth a'ch profiadau yn cyd-fynd â phob maen prawf, ac sy'n disgrifio eich swyddogaeth chi wrth gyflawni canlyniad penodol. Bydd hefyd o fudd i'r panel dethol os gallwch nodi'n glir pa dystiolaeth benodol sy'n berthnasol i ba faen prawf. Mae'n arfer cyffredin darparu paragraffau ar wahân mewn perthynas â phob maen prawf.

Ni ddylai'r datganiad personol fod yn hwy na dwy dudalen. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os bydd eich datganiad yn hirach na hyn.

CV
Sicrhewch fod eich CV yn cynnwys manylion bras eich swydd bresennol neu ddiweddaraf, a'ch dyddiadau yn y rôl. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.

Geirdaon
Rhowch ddau enw cyswllt y gallwn gysylltu â hwy i ofyn am eirda (geirda cyflogwr a geirda personol). Dim ond ar gyfer ymgeiswyr llwyddiannus y byddwn yn gwneud hyn.

Amserlen fras

Dyddiad cau:	17 Rhagfyr 2020 am 4:00pm
Llunio rhestr fer:	W/C 11 Ionawr 2021

Cyfweliadau: W/C 1 Chwefror 2021

Datganiad Amrywiaeth
Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai fod gan gyrff cyhoeddus aelodau bwrdd sy'n adlewyrchu cymdeithas Cymru - pobl o bob cefndir - er mwyn eu helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud gwell penderfyniadau. Dyma pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl o gefndir du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, pobl anabl a phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol.

Hyderus o ran Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y diffiniad cymdeithasol o anabledd, sy'n cydnabod bod rhwystrau mewn cymdeithas yn gallu analluogi pobl sydd â nam neu gyflwr iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd (“nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd”).

Rydym yn gwarantu y byddwn yn cynnig cyfweliad i unrhyw un sy'n anabl os yw ei gais yn bodloni’r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae bodloni’r ‘meini prawf sylfaenol’ yn golygu bod rhaid ichi ddarparu tystiolaeth yn eich cais i ddangos eich bod yn bodloni’r lefel ofynnol ar gyfer pob cymhwysedd. Mae’n rhaid ichi hefyd feddu ar unrhyw gymwysterau, sgiliau neu brofiadau a ddiffinnir yn rhai hanfodol.

Rydym wedi ymrwymo i gyflogi a datblygu gyrfa pobl anabl. Os hoffech gael gwarant o gyfweliad, rhowch wybod i Sharon Williams drwy e-bostio sharon.williams059@llyw.cymru neu ffonio 03000 625737.

Os oes gennych nam neu gyflwr iechyd, neu'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain, ac yn dymuno trafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses recriwtio hon, cysylltwch â Sharon Williams gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac i ateb eich cwestiynau.

Cysylltiadau:
I gael rhagor o wybodaeth am y broses ddethol, cysylltwch â:

Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus
Yr Uned Penodiadau Cyhoeddus
E-bost: penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am rôl yr Aelod Annibynnol – Undebau Llafur, cysylltwch â Charles Janczewski, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro.

Ffôn: 02921836011
E-bost: Charles.Janczewski@wales.nhs.uk

Os oes angen rhagor o gymorth arnoch chi i wneud cais am y rôl hon, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru

I gael rhagor o wybodaeth am Benodiadau Cyhoeddus yng Nghymru, ewch i https://llyw.cymru/penodiadau-cyhoeddus

Atodiad A

Penodi Aelod Annibynnol – Undebau Llafur i Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Disgrifiad o'r rôl a manyleb y person

Dyma gyfle gwych i ddefnyddio eich sgiliau a'ch profiad i gyfrannu at ein gweledigaeth o gyflawni "Cymru iachach, hapusach a thecach".

Rôl a chyfrifoldebau

Bydd Aelodau Annibynnol, ymysg pethau eraill, yn:-

- Chwarae rhan lawn a gweithgar yn y ffordd y caiff Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro ei lywodraethu, o safbwynt clinigol a chorfforaethol. Byddwch yn cymryd rhan weithgar mewn trafodaethau, gan gynnig eich barn a herio a chefnogi'r Bwrdd gyda materion allweddol
- Cyfrannu at waith y Bwrdd yn seiliedig ar eich annibyniaeth, eich profiad yn y gorffennol a'ch gwybodaeth, a'ch gallu i gymryd cam yn ôl o'r gwaith rheoli o ddydd i ddydd
- Cyfrannu at benderfyniadau corfforaethol a'u derbyn, er mwyn sicrhau bod y Bwrdd yn gwneud penderfyniadau cydgysylltiedig, cadarn a thryloyw
- Dod, ymhen amser, i ddeall y sefydliad yn llawn drwy gymryd rhan weithredol, er mwyn galluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol
- Gweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol eraill a sicrhau bod safbwyntiau cleifion, gofalwyr a theuluoedd yn cael eu cynnwys yn llawn er mwyn helpu i lywio, datblygu a gwella gwasanaethau
- Dadansoddi ac adolygu gwybodaeth gymhleth mewn modd beirniadol a chyfrannu at benderfyniadau cadarn
- Gallu cyfrannu at brosesau 'llywodraethu ac ariannu' y Bwrdd Iechyd, gan sicrhau ei fod yn agored ac yn onest yn ei waith drwy gyfrannu'n llawn at y broses o wneud penderfyniadau.

Manyleb y person

Mae'n **hanfodol** bod gan Aelodau Annibynnol y rhinweddau canlynol:-

Gwybodaeth a Phrofiad

- Dealltwriaeth o faterion iechyd a blaenoriaethau yn ardal y Bwrdd Iechyd a'r gallu i ddeall rôl a gwaith y Bwrdd
- Y gallu i wneud yr aelodau gweithredol yn atebol am berfformiad, gan gynnal perthynas adeiladol ar yr un pryd
- Y gallu i ddarparu safbwynt gwybodus, diduedd a chytbwys ar amrywiaeth o faterion sensitif a chymhleth
- Dealltwriaeth o beth yw llywodraethu da ac Egwyddorion Nolan
- Dealltwriaeth o Gydraddoldeb a grwpiau o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig megis hil, anabledd, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych y rhinweddau, y sgiliau a'r profiad i fodloni pob un o'r meini prawf sy'n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Priodoleddau a Sgiliau Personol

Bydd angen ichi allu dangos y canlynol:-

- Y gallu i roi “Cleifion yn Gyntaf”
- Y gallu i weithio fel rhan o dîm ac mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol eraill
- Y gallu i werthfawrogi a pharchu eraill
- Y gallu i gyfathrebu yn agored ac yn onest.

Er mwyn cael eich ystyried, rhaid ichi allu dangos bod gennych yr wybodaeth a’r profiad yn ogystal â’r rhinweddau personol, y sgiliau a phob un o’r meini prawf sy’n hanfodol ar gyfer y penodiad.

Meini Prawf Penodol i'r Rôl

Rhaid i chi fod yn aelod o undeb lafur gydnabyddedig mewn perthynas â materion cyflogaeth ac yn gweithio i Fwrdd Iechyd Caerdydd a’r Fro ar hyn o bryd. Byddwch yn gallu dangos;

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion undebau llafur o fewn yr ardal y mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro yn ei gwasanaethu.

- Y gallu i gymhwyso eich gwybodaeth a’ch dealltwriaeth o faterion undebau llafur ar lefel bwrdd strategol.

Ymrwymiad Amser
Mae swydd Aelod Annibynnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn gofyn am ymrwymiad tybiedig o bedwar (4) diwrnod y mis o leiaf, ond bydd hynny'n amodol ar ofynion y sefydliad, ac mae disgwyl y bydd hynny’n fwy na'r isafswm gofynnol.

Y Gymraeg
Mae sgiliau Cymraeg yn ‘ddymunol’ ar gyfer y swydd hon. Disgwylir i bob ymgeisydd ddangos empathi at yr iaith a dangos arweiniad i gryfhau'r ddarpariaeth o wasanaethau dwyieithog yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru.

Treuliau
Bydd hawl gennych gael ad-daliad, os yw'n briodol, yn erbyn derbynebau ar gyfer costau teithio a chynhaliaeth a fydd yn codi wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd. Rhaid hawlio treuliau o fewn tri mis o fynd i gostau, oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

Gellid hefyd talu costau gofal plant ac unigolion dibynnol eraill os cyflwynir derbynebau, yng nghyd-destun costau ychwanegol eraill a fydd yn cael eu hysgwyddo wrth wneud gwaith i'r Bwrdd Iechyd.

Hyd y penodiad
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy’n pennu hyd y penodiad a bydd am gyfnod o hyd at bedair (4) blynedd i ddechrau. Fodd bynnag, bydd hyn yn amodol ar y ffaith bod yr Aelod Annibynnol yn parhau'n gymwys ar gyfer y rôl gydol y cyfnod hwn. Gall aelodau o'r bwrdd sefyll am gyfnod o wyth (8) mlynedd ar y mwyaf.

Atebolrwydd
Penodir yr aelodau gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a byddant yn atebol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, drwy'r Cadeirydd, am gyflawni eu dyletswyddau ac am eu perfformiad.

Cymorth ar gyfer Aelodau Anabl
Lle bo hynny'n briodol, caiff pob addasiad rhesymol ei wneud er mwyn i'r aelodau fedru cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol.

Pwy sy'n gymwys i wneud cais
Bydd unigolyn yn cael ei atal rhag cael ei benodi os yw:-

a. wedi ei gael yn euog yn y 5 mlynedd diwethaf yn y DU, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw o unrhyw drosedd sydd wedi arwain at ddedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o 3 mis neu fwy
b. wedi ei wneud yn fethdalwr neu wedi gwneud cyfamod neu drefniant gyda'i gredydwyr
c. wedi cael ei ddiswyddo, ac eithrio pan fo swydd wedi'i dileu neu pan nad adnewyddwyd contract tymor penodol, o unrhyw swydd gyflogedig yn un o gyrff y gwasanaeth iechyd
d. os yw'n unigolyn y terfynwyd ei gyfnod fel cadeirydd, aelod neu gyfarwyddwr un o gyrff y gwasanaeth iechyd am nad yw ei benodiad er budd y gwasanaeth iechyd, am iddo beidio â mynychu cyfarfodydd neu am iddo beidio â datgelu buddiant ariannol
e. yn gyflogai Ymddiriedolaeth neu Fwrdd Iechyd arall.

Dylech ddatgan unrhyw wybodaeth arall a allai effeithio'n sylweddol ar eich cais yn yr adran Gwrthdaro rhwng Buddiannau o'r ffurflen gais.

Dylai'r ymgeiswyr fod yn unigolion sy'n ymddwyn mewn modd a fydd yn ennyn hyder y cyhoedd ar bob adeg.

Yn benodol, mae'n ofynnol i'r ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn gwybod am unrhyw beth, yn eu bywydau preifat neu broffesiynol, a allai achosi embaras iddynt hwy neu i Lywodraeth Cymru petai'n dod i'r amlwg ar ôl eu penodi.

Dylai ymgeiswyr gofio hefyd bod aelodau Byrddau Iechyd Lleol wedi'u hanghymhwyso rhag bod yn Aelod o Senedd Cymru, o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015.

Os byddwch yn llwyddiannus, byddwch yn cael llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eich penodi'n Aelod Annibynnol o Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac yn cadarnhau ar ba delerau y caiff y penodiad ei gynnig. Bydd eich penodiad yn amodol ar broses gwirio geirdaon, a gynhelir gan Uned Cyrff Cyhoeddus Llywodraeth Cymru a gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gynhelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Mae'n orfodol i ymgeiswyr llwyddiannus fynychu Rhaglen Gynefino GIG Cymru ar gyfer Aelodau Annibynnol a bydd gofyn ichi fynychu'r cwrs nesaf sydd ar gael.

Gwrthdaro Buddiannau
Dylech nodi'n arbennig bod gofyn ichi ddatgan unrhyw fuddiannau preifat a allai fod, neu y gellid dehongli eu bod, yn gwrthdaro â'ch rôl a'ch cyfrifoldebau fel Aelod Annibynnol o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys buddiannau busnes neu swyddi o awdurdod y tu allan i'ch rôl o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Ar ôl penodi, bydd angen i Aelodau Annibynnol ddatgan y buddiannau hyn a cheisio cadarnhad gan Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro nad oes unrhyw wrthdaro'n codi a'i bod yn briodol iddynt barhau'n aelod o'r bwrdd.

Diwydrwydd Dyladwy
Bydd y tîm penodiadau cyhoeddus yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar yr holl ymgeiswyr sy'n llwyddo i basio'r sifft a chael cyfweliad. Bydd hyn yn cynnwys, ond nid o reidrwydd yn gyfyngedig i chwilio ar y cyfyngiadau cymdeithasol a'r Rhyngrwyd. O ganlyniad, mae'n bosibl y gofynnir cwestiynau i chi yn y cyfweliad mewn cysylltiad ag unrhyw ganfyddiadau diwydrwydd dyladwy.

Safonau mewn bywyd cyhoeddus
Bydd disgwyl i Aelodau Annibynnol gadw at safonau llywodraethu da ar gyfer y GIG yng Nghymru. Maent yn seiliedig ar Egwyddorion Llywodraeth Cymru o Lywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd ynghyd â Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus Nolan". https://www.gov.uk/government/publications/code-of-conduct-for-board-members-of-public-bodies

Atodiad B

Rôl a chyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Cefndir

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yw un o'r sefydliadau GIG mwyaf yn Ewrop. Rydym yn cyflogi tua 14,500 o staff, ac yn gwario tua £1.4 biliwn bob blwyddyn ar ddarparu gwasanaethau iechyd a llesiant i boblogaeth o tua 472,400 sy'n byw yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Rydym hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ar draws De a Chanolbarth Cymru ar gyfer amrywiaeth o arbenigeddau.

Ein gweledigaeth yw creu cymuned lle nad yw siawns rhywun o fyw bywyd iach yn dibynnu ar bwy ydych chi na ble rydych chi'n byw.

Rydym yn Fwrdd Iechyd addysgu ac mae gennym gysylltiadau agos â'r sector prifysgolion, a gyda'n gilydd rydym yn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol, gan wneud gwaith ymchwil a fydd, gobeithio, yn gwella'r clefydau sy'n bodoli heddiw.

Ein Gwasanaethau

- **Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol**: Meddygfeydd, Deintyddion, Fferylliaeth ac Optometreg ac amrywiaeth o wasanaethau therapi cymunedol dan arweiniad timau iechyd cymunedol
- **Gwasanaethau acíwt yn ein dau brif Ysbyty Prifysgol ac Ysbyty Plant**: darparu ystod eang o driniaethau ac ymyriadau meddygol a llawfeddygol
- **Iechyd y Cyhoedd**: rydym yn helpu cymunedau Caerdydd a'r Fro drwy ddarparu ystod o gyngor a chanllawiau yn ymwneud ag iechyd y cyhoedd ac iechyd ataliol
- **Canolfan drydyddol**: rydym hefyd yn gwasanaethu poblogaeth ehangach ar draws Cymru a'r DU yn aml, gyda thriniaethau arbenigol a gwasanaethau cymhleth megis gwasanaethau niwrolawdriniaeth a gwasanaethau sy'n ymwneud â'r galon.

Mae rôl aelod y Bwrdd yn canolbwyntio ar bedwar maes allweddol:-

- **Strategaeth –** cyfrannu at ddatblygiad strategol a gwneud penderfyniadau
- **Perfformiad** – sicrhau bod trefniadau rheoli effeithiol yn ogystal â thîm effeithiol yn gweithredu ar lefel uchaf y sefydliad. Helpu i egluro pa benderfyniadau sydd i'w gwneud gan y Bwrdd ac yna sicrhau bod y gweddill yn cael eu dirprwyo'n glir a dwyn y rheolwyr i gyfrif am eu perfformiad o ran bodloni nodau ac amcanion y cytunwyd arnynt trwy herio a chraffu'n bwrpasol, a monitro'r gwaith o adrodd am berfformiad.
- **Risg** – sicrhau bod gwybodaeth ariannol yn gywir, a bod rheolaethau ariannol a systemau rheoli risg a sicrwydd yn gadarn a bod modd eu hamddiffyn
- **Ymddygiad** – cynnal y safonau moesegol uchaf o ran uniondeb a chywirdeb a chydymffurfio'n llawn â'r Cod Ymddygiad. Dylai aelodau'r bwrdd ddangos trwy eu hymddygiad eu bod yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau tuag at ddinasyddion, y sefydliad a'i randdeiliaid

Atodiad C

Y broses ddethol

Bydd y panel cyfweld yn asesu CV a datganiad personol pob ymgeisydd i benderfynu pwy sy'n bodloni'r meini prawf ar gyfer y rôl orau, a phwy fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Bydd y panel yn dibynnu ar yr wybodaeth yn eich CV a'r datganiad i asesu a ydych yn meddu ar y sgiliau a'r profiad gofynnol. Sicrhewch eich bod yn darparu tystiolaeth i ddangos sut rydych yn bodloni pob un o'r meini prawf hanfodol.

Caiff y panel dethol ei gadeirio gan Charles Janczewski, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a bydd hefyd yn cynnwys Gemma Nye, cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru a'r Athro Ceri Phillips fel Aelod Annibynnol o'r Panel.

Gan ddibynnu ar nifer y ceisiadau a ddaw i law, efallai y bydd eich cais yn cael ei roi ar restr hir cyn cael ei roi i'r panel sy'n llunio rhestr fer i'w ystyried. Dylech fod yn ymwybodol efallai na fydd eich cais yn cael ei ystyried yn llawn gan y panel cyfan mewn sefyllfa fel hon.

Rydym yn rhagweld y bydd y panel wedi penderfynu yn ystod mis Ionawr 2021 pwy fydd yn cael ei wahodd i gyfweliad ym mis Chwefror 2021. Ein bwriad yw cynnal cyfweliadau yn Woodlands House, Maes-Y-Coed Road, Caerdydd, neu oherwydd cyfyngiadau COVID-19, mae'n bosibl y'u cynhelir ar blatfform cyfarfod digidol.

Dim ond yr ymgeiswyr cryfaf y mae'r panel yn credu sydd wedi dangos eu bod yn bodloni'r meini prawf a nodwyd yn adran manyleb y person orau fydd yn cael eu gwahodd i gyfweliad. Fodd bynnag, os ydych wedi ymgeisio o dan y cynllun gwarantu cyfweliad, a'ch bod yn **bodloni'r meini prawf hanfodol** ar gyfer y swydd, cewch chithau hefyd eich gwahodd i gyfweliad.

Os cewch eich gwahodd i gyfweliad ac nad yw'r dyddiad eisoes wedi'i nodi yn y pecyn gwybodaeth hwn, ein nod yw rhoi cymaint o rybudd â phosibl ichi o ddyddiad y cyfweliad. Os na allwch fod yn bresennol ar y dyddiad hwnnw, fe wnawn ymdrechu i aildrefnu ond efallai na fydd hyn yn bosibl oherwydd cyfyngiadau amser o fewn yr amserlen benodi neu argaeledd y panel dethol.

Fe gewch e-bost gan system benodi Llywodraeth Cymru i roi gwybod ichi a ydych wedi eich gwahodd i gyfweliad ai peidio.
Os cewch eich gwahodd i gyfweliad, bydd y panel yn eich holi ynghylch eich sgiliau a'ch profiad ac yn gofyn cwestiynau penodol i asesu a ydych yn **bodloni'r meini prawf** a osodwyd ar gyfer y swydd ai peidio.

Bydd yr ymgeiswyr y bydd y panel yn credu eu bod yn addas i'w penodi yn cael eu hargymell i'r Gweinidogion, a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol. Gall y Gweinidog ddewis cyfarfod â'r ymgeiswyr hyn cyn gwneud penderfyniad. Os felly, bydd yn cyfarfod â'r holl ymgeiswyr ym mhresenoldeb cadeirydd y panel neu ei gynrychiolydd enwebedig. Bydd bwlch amser rhwng y cyfweliad a'r penderfyniad penodi terfynol. Bydd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Os byddwch yn llwyddiannus, cewch lythyr yn eich penodi'n Aelod Annibynnol Undebau Llafur o Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a fydd yn cadarnhau'r telerau y cynigir y penodiad i chi.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn dilyn eich cyfweliad, byddwch yn cael gwybod drwy ganolfan benodi Llywodraeth Cymru. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. Felly, bydd y llythyr yn cynnwys manylion yr unigolyn y gallwch gysylltu ag ef i gael adborth ar eich cyfweliad a'ch cais, os dymunwch wneud hynny.

Ymholiadau
Oes gennych gwestiynau am eich cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.

Os nad ydych yn hollol fodlon
Nod Llywodraeth Cymru yw prosesu'r holl geisiadau mor gyflym â phosibl a thrin pob ymgeisydd yn gwrtais. Os oes gennych unrhyw gwynion am y ffordd y deliwyd â'ch cais, cysylltwch â penodiadaucyhoeddus@llyw.cymru.